

OWEN, HUGH (1639 - 1700), pregethwr Piwritanaidd ac 'apostol Meirion.'

Enw: Hugh Owen
Dyddiad geni: 1639
Dyddiad marw: 1700
Priod: Martha Owen (née Brown)
Plentyn: Mary Owen
Plentyn: Susannah Kenrick (née Owen)
Plentyn: John Owen
Rhiant: Susan Owen
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pregethwr Piwritanaidd ac 'apostol Meirion.'
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Richards

Yr oedd o'r un teulu â'r **barwn Lewis Owen**, y diwinydd **Dr. John Owen** yn berthynas pell iddo, a phrif bobl Meirionnydd ymhlith ei gyfnabod a'i gyfeillion. Ymaelododd yn Rhydychen (Coleg Iesu, 1660), dechreuodd bregethu, ond distawyd ef, ag arfer gair Calamy, gan Ddeddf Unffurfiaeth 1662. Ymunodd ag eglwys Biwritanaidd Wrecsam, ac etholwyd ef yn henuriad athrawus ynddi; yn 1668 priododd Martha Brown, merch un o'r aelodau pwysicaf, dirprwywr gynt o dan Ddeddf y Taeniad; a chyn 1672 yr oedd yn arolygu Anghydfurfwr Annibynnol Meirion o'i bencadlys ym Mron-y-clydwr, plwyf Llanegryn, y rhan a ddigwyddodd i'w fam o diroedd **Peniarth**. Yn y flwyddyn honno, mis Mai, sicrhaodd drwydded o dan yr 'Indulgence' i bregethu yn ei dy ei hun; ym mis Medi galwyd heibio iddo gan **Henry Maurice** ar ei ffordd i Lyn; yn gynnar yn 1676 galwodd **James Owen** ar ei daith at Annibynwyr Eifionydd, a phregethu'n ddirgel, mae'n lled debyg, i Hugh Owen a'r chwech Anghydfurfwr arall a gyfrifwyd yn Llanegryn yn 'census' yr archesgob Sheldon. Ymron yr un amser, yr oedd Hugh Owen yn prysur lwybreiddio'r llyfrau a gyhoeddidd gan **Thomas Gouge** a'r 'Welsh Trust' i fân gielfachau'r sir; daeth o leiaf 24 o'r llyfrau hyn, gweithiau **Charles Edwards** gan mwyaf, i blwyf Llanegryn yn unig. Caled oedd ei fyd, yn ôl y *Nonconformist's Memorial*, hyd ddyfod Deddf Goddefiad yn 1689, er bod dylanwad ei berthynasau yn ei gadw rhag y cosbau trymaf. O dan y ddeddf honno daeth rhyddid cymharol eang iddo, a phregethai i liaws o fân gynulleidfaoedd, Annibynwyr a Bedyddwyr rhydd-gymunol, yn siroedd Meirion a Threfaldwyn. Teithiau hir a phell, gydag ysbeidiau byrion rhyngdynt. Cofiodd pobl y 'funds' yn Llundain amdano drwy ganiatáu iddo am rai blynyddoedd £8 y flwyddyn o rodd at ei waith. Bu farw 15 Mawrth 1699/1700, esiampl berffaith ymron o Gristion cywir, pregethwr diwyd, a gwr tringar, tymherus. Ymhlith ei blant yr oedd JOHN OWEN, ei fab, pregethwr fel ei dad, gwr ieuanc addawol iawn a fu farw yn 1700, ei ferch Susannah, a briododd **Edward Kenrick** o Wrecsam (pregethwr eto, a arolygai Annibynwyr Meirion hyd ei farw yn 1741), a merch arall, Mary, nain y Parch. Hugh Farmer o Walthamstow a roddodd fanylion am Hugh Owen i'r *Memorial*. Gweler ymhellach '**Owen (Teulu)**, Peniarth.'

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 323, 363

Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol, xvi, 171-8

Edmund Calamy, *An account of the ministers, lecturers, masters, and fellows of colleges and schoolmasters, who were ejected or silenced after the Restoration in 1660. By or before, the Act for Uniformity.* (London 1713), ii, 710

The Nonconformist Memorial; being an Account of the Lives and Printed Books of the two thousand Ministers ejected in 1662, 1803, iii, 490-4

Calendar of State Papers, Domestic Series, E.B., 38A, 135

Broadmead Records (1847, 1865), Add. B., 515

Salt MS. 2112 yn llyfrgell William Salt, Stafford (Stafford), dalen 407

Llawysgrif o eiddo'r Presbyterian Board, a gyhoeddwyd gan Alexander Gordon dan y teitl Freedom after Ejection. A Review (1690-1692) of Presbyterian and

Congregational Nonconformity in England and Wales, 1917, 92, 98

R. T. Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937), 33-47

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5932197

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwydwr
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government